

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg

Ymateb Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Cymdeithas yr Iaith wedi bod yn ymgyrchu dros hawliau i'r Gymraeg ers dros 50 mlynedd. Credwn fod gan bob unigolyn sy'n dewis gwneud Cymru yn gartref iddyn nhw yr hawl i glywed, i weld, i siarad, i ddysgu, ac i fwynhau ein hiaith genedlaethol unigryw - iaith a ddylai fod yn etifeddiaeth gyffredin i ni gyd.

1.2 Rydym yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r trydydd ymgynghoriad ar y safonau iaith arfaethedig. Gwelwn fod rhai elfennau o'r safonau iaith hyn sy'n well na'r fersiwn blaenorol a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth. Fodd bynnag, bydd angen nifer o welliannau sylweddol pellach er mwyn sicrhau'r twf yr hoffem ei weld yn nefnydd y Gymraeg, ac er mwyn sefydlu'r hawliau iaith cryf, eglur, eang ac ystyrlon mae pobl Cymru - y Cymry Cymraeg a'r Cymry di-Gymraeg fel ei gilydd - yn dymuno eu cael.

2. Crynodeb

2.1 Ymysg rhai o'n prif bryderon am y safonau drafft hyn yw'r diffyg safonau a fyddai'n:

- gosod amodau ar gontractau er mwyn sicrhau darpariaeth Gymraeg;
- gosod amodau ar grantiau er mwyn sicrhau darpariaeth Gymraeg;
- sicrhau polisiâu cyflogaeth cryfach er mwyn i gyrff allu darparu gwasanaethau Cymraeg digonol;
- sicrhau bod rhagor o gyrff yn gweinyddu'n fewnol yn Gymraeg;
- sicrhau bod gan bobl hawliau eang, clir, cynhwysfawr a dealladwy sy'n rhoi hyder iddynt ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd

2.2 Dyma rhai o'r prif themâu eraill sy'n deillio o'n sylwadau manwl yn y tabl yn adran 4 isod:

- Mae'r safonau fel y'u lluniwyd gennych yn rhai penodol iawn, a nifer ohonynt gyda disgwyliadau isel iawn. Un ffordd o ddatrys y problemau hyn ac o roi hyblygrwydd digonol er mwyn i'r Comisiynydd sicrhau bod cyrff yn gwella'u darpariaeth Gymraeg yn barhaus, fyddai ychwanegu safonau, ym mhob set ac is-set o safonau, yn debyg i'r hyn a gynigir gan Safon 61
- Mae nifer o safonau yn dal i fod sy'n gorfodi unigolyn i optio i mewn i wasanaeth, yn hytrach na bod y gwasanaeth yn dod yn ddiofyn yn Gymraeg
- Mae nifer o'r safonau yn anghofio neu'n diystyru bodolaeth cyd-destunau lle mai'r Gymraeg yw iaith weinyddol neu iaith naturiol y corff neu'r cyd-destun daearyddol/cymdeithasol dan sylw, gan eu bod yn cymryd yn ganiataol bod y Gymraeg yn ychwaneg neu'n iaith leiafrifol yn unig
- Mae nifer o safonau yn golygu darparu gwasanaeth llawer is na'r hyn a fyddai'n ddisgwyliedig:
 - gan unrhyw gorff sydd wedi mabwysiadu cynllun iaith;
 - ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain;
 - er mwyn creu cymdeithas lle mae hawliau Cymraeg clir a ystyrlon;
 - er mwyn bodloni egwyddorion sylfaenol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

- er mwyn parchu iaith sydd â statws swyddogol

er enghraifft safon 17. Felly, dylid dileu'r safonau hynny.

- Mae mannau gwan pan ddaw'r Safonau at wasanaethau ar-lein a gwasanaethau a ddarperir drwy ddulliau technolegol newydd neu arloesol
- Mae'r Safonau yn rhy benodol, gan arwain at fannau gwan anfwriadol, megis y diffyg sôn am gyfryngau cymdeithasol, platfformau ar-lein eraill a pheiriannau hunan-wasanaeth
- Mae llawer o safonau lle byddai rhywun yn gorfod datgan dymuniad i siarad Cymraeg o'r newydd er y gallai fod disgwyliad rhesymol bod sefydliad eisoes yn gwybod, neu pan ddylai fod yn gwybod, eu bod yn dymuno siarad Cymraeg

2.3. Yn fras, rhai o'n prif gynigion er mwyn datrys rhai o'r problemau hyn yw'r canlynol:

- mae angen Safon(au) llawer mwy cadarn yn gosod gorfodaeth ar gyrff i lunio a gweithredu polisiau adnoddau dynol sy'n:
 - gwneud pob swydd newydd yn rhai lle mae'r Gymraeg naill ai:
 - yn hanfodol;
 - gydag amod o ddysgu Cymraeg;
 - neu yn ddymunol;
 - sicrhau bod cyfran o staff y corff, ar unrhyw adeg, yn cael hyfforddiant dwys i siarad Cymraeg ac yn dod yn rhugl yn y Gymraeg er mwyn gallu gweithio yn Gymraeg;
 - cymryd camau pendant i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn fewnol, gan gynnwys mwy o ddrafftio gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg a mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd;
 - cymryd camau pendant yn achos rhai cyrff i symud at weinyddu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- mae angen Safon(au) penodol yn rhoi dyletswydd ar sefydliadau i osod amodau iaith wrth gontrectio gwaith allan i gwmnïau preifat a chyrrff eraill, er mwyn rhoi eglurder am y dyletswyddau fydd ar y cyrrff eraill.
- yn yr un modd, mae angen Safon(au) penodol yn rhoi dyletswydd ar sefydliadau i osod amodau iaith wrth roi grantiau i unrhyw un arall.
- mae angen i'r Safonau roi eglurder i'r cyhoedd ynghylch yr hawliau sy'n deillio o'r Safonau.

3. Nodyn Esboniadol - Sylwadau Manwl

Tudalen 2, llinell 4-6 - nid yw'n glir beth yw ystyr 'amgylchiadau eraill' nad ydynt yn amgylchiadau daearyddol.

Tud 4, 1(4) - ystyr corff - os yw'r Llywodraeth yn dadlau bod trydydd partïon yn ddarostyngedig i'r safonau, oni ddylai fod cyfeiriad at hyn yn y adran yma neu yn yr adran dehongli?

Tudalen 5, 3(2)(a) - Er ein bod yn derbyn y gallai cymhlethdodau godi o gael dwy system yn cyd-redeg, credwn ei bod yn bwysicach sicrhau cysondeb ledled Cymru ac felly credwn y dylid diwygio Deddf Llywodraeth Cymru, a gosod Safonau Hybu ar Lywodraeth Cymru.

Tudalen 5, 3(2)(b) - dylid dileu'r eithriad hwn, gan nad oes rheswm drosto.

4. Y Safonau - Sylwadau Manwl

Rhif Safon	Sylwadau
Safonau 8 -17	Pam nad oes safon sy'n sôn yma am ateb pob galwad ffôn yn Gymraeg? Hynny yw, fersiwn o safon 18 ar gyfer mathau eraill o alwadau ffôn. Pam nad oes sefyllfa ar gael lle mae gwasanaeth Cymraeg cyflawn ar gael gan brif rif ffôn a llinell gymorth a chanolfan alwadau? Mae hynny'n ofyniad hollol resymol. Mae angen ychwanegu safon newydd, gyda geiriad safon 10 heb y testun mewn cromfachau er mwyn sicrhau cysondeb â safonau 18-20.
Safon 11	Dylid dileu'r safon yma, mae'n is na'r hyn fyddai'n dderbyniol os yw corff wedi bod yn gweithredu cynllun iaith ers sawl blwyddyn.
Safon 17	Mae'r safon yma'n awgrymu na fydd gwasanaeth Cymraeg ar gael bob amser, ac felly mae'n safon sy'n caniatáu trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Dylid dileu'r safon yma felly.
Safon 21	Oes rhaid holi os yw rhywun eisiau siarad yn Gymraeg os ydynt yn cyfarch rhywun yn Gymraeg neu'n ateb y ffôn yn Gymraeg? Oni ddylen nhw sylweddoli bod rhaid trafod yn Gymraeg o hynny ymlaen? Oni allai holi os ydynt yn dymuno siarad yn Gymraeg roi rhywun o dan bwysau i newid iaith? Eto, mae'n golygu bod rhaid optio i mewn i wasanaeth, yn hytrach na bod y gwasanaeth yn dod yn naturiol. Fel arall, gallai'r safon bresennol greu sefyllfaoedd anffodus iawn lle mae defnyddiwr wedi bod yn defnyddio'r Gymraeg gyda chorff ers blynnyddoedd ond bod rhaid i'r corff yn dechnegol holi a ydyn nhw am barhau i gyfathrebu'n Gymraeg gyda'r corff dan sylw. Deallwn y rheswm dros y safon yma, ond awgrymwn addasu'r safon fel a ganlyn: <i>"Pan fyddwch yn ffonio person am y tro cyntaf, rhaid i chi ofyn i'r person a fyddai'n dymuno derbyn galwadau ffôn gennych yn Gymraeg (oni bai bod ei ddymuniad i dderbyn galwadau ffôn yn Gymraeg wedi dod yn amlwg drwy ryw ffordd arall); ac os yw'r person yn dweud y byddai'n dymuno hynny, rhaid i chi gadw cofnod o'i ymateb, a chynnal galwadau ffôn a wneir at y person hwnnw o hynny ymlaen yn Gymraeg."</i>
3 - safonau ynghylch cyfarfodyd	Mae'r geiriad 'pan fyddwch yn gwahodd' yn y safonau hyn yn creu anghysondeb anfwriadol yn ein barn ni. Beth am senario pan fydd person yn gofyn am gyfarfod, yn hytrach na chael ei wahodd? Awgrymwn eich bod yn newid 'pan fyddwch yn gwahodd un person i gyfarfod' i 'pan fyddwch yn trefnu cyfarfod gydag un person', ac ati.
Safon 23	Mae'r safon yma eto yn cymryd yn ganiataol nad yw'r gwasanaeth yn naturiol Gymraeg. Awgrymwn y geiriad canlynol: <i>"Pan fyddwch yn trefnu cyfarfod gydag un person, rhaid i chi gynnal cyfarfod yn Gymraeg, oni ddatgenir gan y person hwnnw nad yw'n dymuno cynnal y cyfarfod yn Gymraeg"</i>

Safon 25 - 26B	Credwn fod y safonau yma yn bwysig iawn. Fodd bynnag, bydd rhai sefyllfaoedd lle bydd yn amlwg y byddai'r person yn dymuno siarad Cymraeg e.e. pan fo plentyn yn methu siarad iaith ond y Gymraeg, neu wedi dangos awydd i gyfathrebu'n Gymraeg cyn y cyfarfod lle dylid cynnal y cyfarfod yn Gymraeg yn ddiofyn. Hynny yw, awgrymwn bod angen geiriad megis: <i>pan fydd y person hwnnw wedi rhoi gwybod i chi ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, neu, os yw'n dod i'r amlwg mewn ffordd arall bod y person hwnnw yn dymuno neu'n gorfod defnyddio'r Gymraeg</i> Mae angen newid hyn yn safonau 25, 26, 26A a 26B
Safonau 27 - 29A	(i) Mae'r safonau yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg gan osod trothwy ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg mewn cyfarfod er mwyn cael cyfieithu ar y pryd, ond ddim ar gyfer y Saesneg. Os oes un person (neu ragor) yn dymuno defnyddio'r Gymraeg a bod un person (neu ragor) yn ddi-Gymraeg, dylid trefnu cyfieithydd ar y pryd. (ii) Eto, mae'r geiriad 'pan fyddwch wedi gwahodd' yn y safonau hyn yn creu anghysondeb anfwriadol yn ein barn ni. Beth am senario pan fydd person yn gofyn am gyfarfod, yn hytrach na chael ei wahodd? Awgrymwn eich bod yn newid 'pan fyddwch wedi gwahodd...i gyfarfod' i 'pan fyddwch yn trefnu cyfarfod gyda...person', ac ati.
Safon 27	Mewn sefyllfaoedd lle mae'r Gymraeg yn digwydd yn naturiol, byddai'n afresymegol gorfodi cyrff i ofyn i bawb a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg. Awgrymwn felly ychwanegu hyn at ddiwedd y safon: <i>"Pan fyddwch wedi trefnu cyfarfod gyda mwy nag un person (nad yw'n ymwneud â buddiant personol neu lesiant un neu fwy o'r unigolion a wahoddir), rhaid i chi ofyn i bob person a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod (oni bai ei bod yn amlwg mewn ffordd arall eu bod)"</i>
Safonau 27A, 27B, 27C	Mae'r safonau hyn yn anghyfreithlon, gan eu bod yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Unwaith eto, maent yn gorfodi rhywun i 'optio i mewn' i wasanaeth Cymraeg, a hyd yn oed ar ôl optio i mewn, ni fydd sicrwydd o'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg os na fydd y trothwy wedi ei gyrraedd. Awgrymwn y gellid, yn lle safonau 27A, 27B a 27C, ddefnyddio safon fel a ganlyn: <i>"Pan fyddwch wedi trefnu cyfarfod ar gyfer mwy nag un person lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg, a'i bod yn dod i'r amlwg bod un neu ragor o bobl yn dymuno defnyddio'r Gymraeg (naill ai oherwydd eu bod wedi rhoi gwybod neu drwy ffordd arall), rhaid i chi drefnu cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg."</i>
Safon 27D, Safon 27E	Beth os yw 60%, 70%, 80% neu 90% yn ateb gwahoddiad gan ddweud eu bod yn dymuno siarad Cymraeg, ond bod y gweddill, sy'n siarad Cymraeg, wedi anghofio ymateb? Pam fod rhaid darparu cyfieithu ar y pryd o dan yr amgylchiadau hynny? Gan ddefnyddio 27D fel enghraifft, awgrymwn felly:

	<i>"Pan fyddwch wedi trefnu cyfarfod ar gyfer mwy nag un person, a bod pawb sydd wedi ymateb wedi rhoi gwybod i chi eu bod yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, rhaid i chi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu)."</i> Gydag arall-eiriad fel yr uchod, ni fyddai rhaid i gorff dderbyn ymateb gan bawb am eu dewis iaith er mwyn cynnal cyfarfod yn Gymraeg. Hefyd, ar gyfer cyrff sy'n gweithredu yn Gymraeg, credwn y dylech ystyried cael safon fel hon yn lle safonau 27D a 27E: <i>"Pan fyddwch wedi trefnu cyfarfod ar gyfer mwy nag un person, ac nad oes neb sydd wedi ymateb wedi rhoi gwybod i chi nad ydynt yn gallu defnyddio'r Gymraeg, rhaid i chi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu)."</i>
Safon 35 a 36	Beth am ddigwyddiadau a ariennir gan fwy nag un corff, ond bod yr holl arian yn dod gan gyrff sy'n ddarostyngedig i'r safonau? Oni ddylai digwyddiadau o'r fath beidio â thrin y Gymraeg na'r Saesneg? Fel y saif, mae'r safon yn creu man gwan mawr a hynod o anffodus gyda digwyddiadau a ariennir ar y cyd rhwng nifer o gyrff sy'n ddarostyngedig i'r safonau. Credwn y dylai unrhyw ddigwyddiad sy'n derbyn unrhyw arian cyhoeddus gadw at y safonau hyn, ac mae angen rhoi sylw i hynny hefyd.
Safonau 40 - 49	
Safon 48	Credwn y gallai'r gair 'testun' yn y safon hon beri ychydig o aneglurder. Er mwyn bod yn eglur o ran peidio â thrin dogfennau Cymraeg yn llai ffafriol na rhai Saesneg (o ran amseriad ac ati) awgrymwn y geiriad canlynol: <i>Pan fyddwch yn cynhyrchu dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i chi beidio â thrin unrhyw fersiwn Cymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.</i>
Safonau 50 - 51	Mae'r safonau hyn yn dda ar y cyfan, ond nid oes sôn am ffurflenni rhyngweithiol ar-lein megis talu am docyn parcio neu ofyn am wasanaeth arall. Does dim byd sy'n gwneud yn eglur eu bod yn gynwysedig yn y safonau hyn. Mae angen eglurder am hyn felly, drwy ychwanegu at y safonau e.e. "(gan gynnwys pob math o ffurflenni electronig)".
10 gwefannau a gwasanaethau ar-lein	Nid oes sicrwydd bod y safonau'n mynd i gadw lan gyda datblygiadau technolegol yn y dyfodol ac mae angen mynd i'r afael â hyn drwy safon sy'n cwmpasu datblygiadau newydd. Mae'n bryder mawr nad oes sôn am y cyfryngau cymdeithasol yn y safonau hyn. Mae'r rhain yn cael eu defnyddio'n helaeth gan gyrff sy'n dod o dan Ddeddf 1993 a byddai eu heithrio o'r safonau yn gam mawr yn ôl. Mae hyn yn amlygu ein pryder cyffredinol bod y safonau hyn mor benodol - nid oes modd rhagweld popeth a fydd yn cael ei adael allan o'r safonau. Nid oes safon ynghylch dulliau eraill o ddarparu gwasanaeth, megis peiriannau hunan-

wasanaeth. O dan ba safon y daw gwasanaethau a ddarperir ar beiriannau electronig mewn lleoedd fel amgueddfeydd, llyfrgelloedd, gorsafoedd trên neu feysydd parcio?

Mae angen unioni'r anghysondeb rhwng darpariaeth copïau caled a chopïau electroneg. Fel y saif pethau, mae'r safonau hyn yn gadael man gwan lle byddai'n ofynnol i gorff ddarparu ffurflen copi caled, ond ni fyddai rhaid iddynt ei wneud yn electroneg yn Gymraeg. Mae sefyllfaoedd yn digwydd ar hyn o bryd lle mae rhai sefydliadau yn cynhyrchu dogfennau yn Gymraeg, ac yn peidio â'u cyhoeddi ar eu gwefan neu blatfformau eraill ar-lein (ond yn cyhoeddi fersiynau Saesneg).

Credwn fod rhaid cael safon(au) ychwanegol felly sy'n ymwneud â:

- (a) darpariaeth ar blatfformau ar-lein eraill megis Twitter, Facebook, Flickr, Instagram ac eraill;
- (b) peiriannau hunan-wasanaeth;
- (c) gwasanaethau a ddarperir ar-lein drwy drydydd parti;
- (ch) unrhyw ddatblygiadau technolegol newydd; a
- (d) sicrhau bod copïau electroneg o ddogfennau a deunydd cyhoeddus yn cael eu darparu yn Gymraeg

Credwn mai'r ffordd hawsaf o ddatrys y broblem hon fyddai:

(i) Newid teitl y safonau hyn i *"Safonau ynghylch gwefannau, gwasanaethau ar-lein, a gwasanaethau a ddarperir drwy dechnolegau eraill"*

(ii) Ychwanegu safon gyffredinol fel a ganlyn:

"Rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu neu dderbyn gwybodaeth ar-lein, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i gyfrifon cyfryngau cymdeithasol."

(iii) Ychwanegu safon gyffredinol fel a ganlyn:

"Rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu neu dderbyn gwybodaeth drwy beiriant hunan-wasanaeth."

(iv) Ychwanegu safon i sicrhau bod dogfennau Cymraeg ar gael ar-lein yn ogystal ag ar bapur.

"Os yw dogfen yn cael ei gosod ar eich platfformau ar-lein, rhaid i'r ddogfen honno fod ar gael yn Gymraeg ar eich platfformau ar-lein yn ogystal"

"Os darperir fersiwn electronig Saesneg o ddogfen, dylid peidio â thrin y fersiwn electronig Cymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg."

Nid yw'r eithriad am glipiau fideo a sain a nodir yn adran 32(1)(a) y rheoliadau yn dderbyniol o gwbl. Gweler y fideo hwn fel enghraifft siomedig o ddarpariaeth y Llywodraeth:

<http://cymru.gov.uk/newsroom/educationandskills/2014/141008ministerlaunchesanti-bullyingfilmcompetition/?skip=1&lang=cy>

	Yn y fideo uchod mae tri allan o bedwar sy'n cael eu cyfweld yn medru'r Gymraeg, ond y fideo yn uniaith Saesneg. Dyma sefyllfa anesboniadwy a chwbl annerbyniol, a hyd y gwelwn does dim safon a fydd yn newid hynny yn y rheoliadau hyn. Rhaid ychwanegu safon felly yn nodi: <i>"Pan fyddwch yn cynhyrchu clipiau fideo a sain, dylid cymryd pob cam rhesymol i'w gwneud a'u darparu yn Gymraeg."</i> Nid yw'n dderbyniol bod safon mor isel â safon 53 yn bodoli.
11 Safonau ynghylch arwyddion	Bydd yn anodd i'r cyhoedd wybod a yw arwydd yn un a gafodd ei osod cyn neu ar ôl i'r safonau/hysbysiad cydymffurfio ddod i rym. Dylid ychwanegu safon sy'n sicrhau bod pob arwydd yn Gymraeg, boed yn rhai newydd neu'n hen rai. Mae hyn yn hen ofyniad ers Deddf 1993 ac nid yw'n rhesymol bod awdurdodau lleol, er enghraifft, yn dal i arddangos arwyddion uniaith Saesneg. Awgrymwn felly fod angen safon ychwanegol: <i>"Rhaid i chi sicrhau bod pob arwydd yn Gymraeg."</i> Byddai hynny'n sicrhau bod gan y Comisiynydd gyfle i sicrhau bod holl arwyddion corff yn Gymraeg erbyn rhyw ddyddiad penodol. Bydd hynny'n gwneud hawliau defnyddwyr yn llawer mwy eglur. Dylai'r safonau ei gwneud yn eglur bod arwyddion yn cynnwys arwyddion electronig boed yn rhai parhaol neu dros dro yn ogystal â rhai corfforol.
Safon 62	Eto, mae hon yn enghraifft o orfod optio i mewn i wasanaeth Cymraeg. Yn lle, awgrymwn y dylid cael safon fel a ganlyn: <i>"Pan fyddwch yn trefnu ymweliad neu apwyntiad i berson ymlaen llaw sy'n golygu bod y person yn dod i'ch derbynfa, rhaid i chi ddarparu gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg, oni roddir gwybod i chi nad yw'r person hwnnw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg."</i>
Safonau 63 & 64	Dylid dileu'r ddwy safon hon. Maent yn warthus, ac mae safon 63 yn enwedig yn gwbl groes i fwriad Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
14 Safonau ynghylch grantiau	Mae'n gwbl annerbyniol nad oes safon a fyddai'n gosod amod iaith ar grantiau. Mae hyn yn groes i strategaeth iaith y Llywodraeth yn ogystal â'r adroddiad ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2014. Nid yw Safon 92 yn bodloni addewid y strategaeth chwaith sy'n sôn yn benodol am amod iaith ar grantiau. Ystyrier sefyllfaoedd sydd eisoes ar y gweill lle mae gwasanaeth yn cael ei gynnal drwy grant megis pwll nofio, Mae'n rhaid i'r gwasanaeth hwnnw fod yn ddarostyngedig i'r safonau. Credwn y dylid mabwysiadu Safon â geiriad tebyg i'r isod: <i>"Pan fyddwch yn dyrannu grantiau, benthyciadau neu nawdd i drydydd parti, a chyn ac</i>

	<i>yn sgil eu dyfarnu, rhaid i chi sicrhau y bydd y trydydd parti dan sylw yn peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng nghyd-destun y grantiau, y benthyciadau a'r nawdd dan sylw".</i>
15 Safonau ynghylch corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract	Mae'n gwbl annerbyniol nad oes safon a fyddai'n gosod amod iaith ar gontractau. Mae hyn yn groes i strategaeth iaith eich Llywodraeth ac adroddiad y Gymraeg a Datblygu Economaidd. Credwn y dylid mabwysiadu addasiad o awgrym y Comisiynydd yn ei chyngor diweddar i'r Llywodraeth am y safonau: <i>"Er mwyn i asiant neu gontractwr weithredu a chyflenwi gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd ar eich ran ac o dan eich goruchwyliaeth, pan fyddwch yn gwneud trefniadau contractio rhaid i chi sicrhau bod y gofynion perthnasol sydd arnoch i gydymffurfio â safonau yn cael eu nodi a bod gofynion gweithredol y contract yr un fath â'r gofynion sydd arnoch i gydymffurfio â safonau perthnasol, i'r graddau eu bod yn gymwys i'r contract dan sylw."</i>
16 Safonau codi ymwybyd diaeth	Dylid ychwanegu safon sy'n sôn am gyhoeddi a hyrwyddo dogfen syml sy'n esbonio i'r cyhoedd yr hawliau cyffredinol sy'n deillio o'r safonau fel bod modd i bobl gofio a dod i ddeall eu hawliau newydd. Dylid anelu at gysondeb cenedlaethol ar eu cyfer, a gallai fod yr un ddogfen i bob sefydliad neu ddogfen debyg sy'n seiliedig ar dampled a ddarperir gan y Comisiynydd. Awgrymwn safon ar hyd y llinellau hyn: <i>"Rhaid i chi gyhoeddi a hyrwyddo rhestr gryno o hawliau cyffredinol y cyhoedd mewn perthynas â'r Gymraeg wrth ymwneud â chi a'ch gwasanaethau."</i> <i>"Rhaid i chi gyhoeddi a hyrwyddo rhestr gryno o hawliau cyffredinol eich gweithwyr mewn perthynas â'r Gymraeg."</i>
18 Safonau ynghylch cyrsiau	Mae angen safonau uwch, sy'n golygu nid yn unig bod y cyrsiau yn cael eu 'cynnig' drwy gyfrwng y Gymraeg, ond hefyd eu bod yn cael eu 'darparu' yn Gymraeg. Dylid dileu safon mor wan â safon 84, ni ddylai'r un plentyn yng Nghymru gael eu hamddifadu o'r hawliau sylfaenol hyn. Awgrymwn felly y safonau ychwanegol hyn, fel bod hyblygrwydd gan y Comisiynydd i sicrhau nad yw corff yn camu'n ôl o arferion presennol, neu i symud corff tuag at ddarparu'r holl gyrsiau yn Gymraeg: <i>"Pan fyddwch yn darparu cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid i chi ei ddarparu yn Gymraeg."</i> <i>"Pan fyddwch yn darparu cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, ac sydd wedi'i anelu'n benodol at bersonau sy'n 18 oed neu'n iau, rhaid i chi ei ddarparu yn Gymraeg."</i>
Rhan 2 - safonau sy'n	Tabl 1, Rhes 7 - credwn fod gorfodi cyrff i fod yn ddarostyngedig i safon 17, hynny yw, i baratoi ar gyfer sefyllfa lle nad oes gwasanaeth ar gael yn Gymraeg, yn anghyfreithlon gan ei fod yn groes i egwyddor sylfaenol Mesur y Gymraeg (2011) y dylid peidio â thrin

ddibynnol ar safonau eraill	y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pam fod rhaid cymryd yn ganiataol y bydd sefyllfa o'r fath yn codi? Ond yw hynny'n rhoi caniatâd i gyrff wahaniaethu yn erbyn siaradwyr Cymraeg?
Rhan 3 - Dehongli'r Safonau	Pam nad oes dim byd yn egluro yn yr adran hon bod yn rhaid i gorff sicrhau bod unrhyw wasanaeth a ddarperir fod yn Gymraeg. Mae'n rhyfedd bod yr esboniad hwnnw yn y ddogfen esboniadol ond ddim yn unlle yn y rheoliadau eu hunain? Dylid gwneud yn glir yma bod y safonau yn ymwneud â gwasanaeth sydd wedi ei contractio allan, yn cael ei ddarparu drwy ymddiriedolaeth neu drwy grant. Mae adran 23 yn rhoi'r argraff nad yw'n iawn i gyrff weithredu'n uniaith Gymraeg. Mae'n rhoi'r argraff y dylai corff orfod darparu gwasanaethau mewn ieithoedd eraill yn groes i egwyddorion y Mesur, gan mai dim ond un iaith swyddogol y mae'r Mesur yn ei sefydlu yng Nghymru. Dylid ailystyried y geiriad hwn felly, drwy ychwanegu "o anghenraid" ar ddiwedd cymalau (a) a (b). Yn adrannau 26 a 27 dylid ychwanegu peidio â thrin yn llai ffafriol o ran cost y gwasanaeth. Mae enghreifftiau diweddar yn bodoli pan fo cyrff yn ceisio codi tâl am fersiwn Cymraeg sy'n uwch nag unrhyw gost am ddeunydd Saesneg. Yn adran 34 ni ddylid cynnwys sôn am 'brif swyddfeydd' yn unig. Mae'r cyfyngiad o ran person sy'n cael ei gyflogi yn benodol at y pwrpas hwnnw, yn hen ddigon o gyfyngiad fel y mae. Ar ben hynny, mae'r safonau fel y safant yn wan ac yn hyblyg gan alluogi sefydliad i osgoi darparu gwasanaeth Cymraeg digonol heb sôn am eithrio swyddfeydd eraill y sefydliad. Hefyd, beth sy'n cyfrif fel prif swyddfeydd? Mae'n gadael ansicrwydd ynghylch a yw'r corff yn ddarostyngedig mewn gwahanol sefyllfaoedd.
Safonau Lluio Polisi	Dylid cynnwys safonau ynghylch penderfyniadau ariannol a llunio rheoliadau ac is-reoliadau hefyd.
Safon 92	Mae'r safon hon yn llawer rhy wan. Mae'n rhaid cynnwys gofyniad yn safonau 69-73 i gynnwys amod iaith fel rhan o bob grant, yn unol ag argymhelliad yr adroddiad ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd a gyhoeddwyd yn mis Chwefror eleni. Ni ddylid cael safonau sy'n gofyn i gorff lunio dogfen bolisi, gan ei fod yn gadael y gofyniad yn aneglur. Roedd y Comisiynydd wedi gwneud hynny'n glir, yn wir, dyna oedd rheswm y Llywodraeth dros lunio safonau penodol iawn (rhy benodol yn ein barn ni) eu hystyron. Awgrymwn y dylid ail-lunio paragraff cyntaf safon 92 fel a ganlyn: <i>"Rhaid i chi ystyried y materion canlynol pan fyddwch yn gwneud penderfyniad ynghylch dyfarnu grant:"</i> gan fewnosod y gair "yr" yn lle "a oes" yn 92(d) Yn ogystal, dylid ychwanegu safon debyg i'r uchod (fel y'i diwygiwyd gennym) ar gyfer contractau, fel bod effaith contractau ar y Gymraeg hefyd yn cael ei hystyried.
Rhan 2 - dehongli	Rydym yn falch o weld deddfwriaeth yn y rhestr. Awgrymwn fod angen cynnwys sôn am reoliadau ac is-reoliadau yn ogystal gan fod nifer o gamgymeriadau/amryfusedd yn

	gallu digwydd, er enghraifft y rheoliadau ynghylch yr iaith a ddefnyddir ar bresgripsiynau.
Safonau Gweithredu	Mae angen ail-lunio nifer o'r safonau hyn o fod yn rhai lle mae rhywun yn gorfod optio i mewn i wasanaeth Cymraeg i fod yn rhai sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn dod yn norm. Hefyd, mae angen ystyried sefyllfa lle mae corff yn gweithredu'n fewnol yn Gymraeg, lle nad oes diben holi a yw'r aelod eisiau dogfennaeth neu wasanaeth yn Gymraeg. Yn wir, mae'n creu perygl o danseilio'r polisi hwnnw, gan awgrymu bod hawl i wasanaeth yn Saesneg neu iaith arall. Ymhellach, nid oes safon sy'n creu'r hawl i rywun gyflawni ei waith drwy'r Gymraeg, megis llunio dogfennau a chyflwyniadau llafar.
Safon 96	Fel y nodwyd gennym o'r blaen, nid ydym yn credu bod disgwyliad i 'lunio polisi' yn safon dda, gan nad oes modd rheoli cynnwys y safon honno. Os yw'r Llywodraeth yn mynnu cadw at safon o'r fath awgrymwn fod angen safonau ychwanegol fel a ganlyn: <i>"Rhaid i chi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, sy'n esbonio bod y corff yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig, ac yn amlinellu sut mae'n gwneud hynny."</i> <i>"Rhaid i chi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, sy'n esbonio y bydd y corff yn cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn fewnol dros gyfnod o amser, ac yn amlinellu sut y bydd yn gwneud hynny."</i> Mae sôn am gyhoeddi'r polisi hwn ar y fewnrwyd. Credwn y dylid ei gyhoeddi ar y rhyngwyd er mwyn i'r cyhoedd wybod beth yw polisi sefydliad ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg (ac nid oes mewnwyd gan bob corff).
Safon 97	Awgrymwn y dylid symud o sefyllfa o orfod optio i mewn (safonau 97-102) i sefyllfa lle mae dogfennau Cymraeg yn cael eu darparu oni ddatgenir gan y cyflogai nad yw'n dymuno hynny.
Safonau 111, 112, 115 a 116	Mae angen safon ychwanegol uwch ar gyfer cyrff sy'n gweithredu'n fewnol yn Gymraeg. Fel arall, mae'r safonau yn awgrymu eu bod yn creu'r hawl i wasanaeth Saesneg. Awgrymwn safonau ychwanegol fel a ganlyn: <i>"Pan fyddwch yn derbyn cwyn gan aelod o staff neu'n derbyn cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod staff hwnnw, rhaid i chi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu)."</i> (Safon newydd i'w mewnosod cyn safon 111) <i>"Pan fyddwch yn trefnu cyfarfod gydag aelod o staff ynghylch achos disgyblu a gyflwynwyd yn ei erbyn, rhaid i chi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu)"</i> (Safon newydd i'w mewnosod cyn safon 115) Fel y nodwyd uchod, mae'r un peth yn wir am nifer o'r safonau yn yr adran hon, gyda

	phwyslais ar 'ofyn' a yw cyflogai am gael rhywbeth yn Gymraeg. Credwn y dylid llunio nifer llai o safonau a fyddai'n ymdrin â chyrrff o'r fath sy'n gweithredu yn Gymraeg yn ddiofyn, neu a fydd yn gwneud hynny yn y dyfodol.
Safon 126	Mae'r safon hon yn anghofio am y cyrrff sy'n gweithredu'n fewnol yn Gymraeg lle nad oes darpariaeth Saesneg. Awgrymwn fod angen creu dwy safon ychwanegol fel a ganlyn felly: <i>"Rhaid i chi ddarparu pob hyfforddiant yn Gymraeg"</i> <i>"Rhaid i chi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd canlynol —</i> <i>(a) recriwtio a chyfweld;</i> <i>(b) rheoli perfformiad;</i> <i>(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu;</i> <i>(d) ymsefydlu;</i> <i>(e) delio â'r cyhoedd;</i> <i>(f) iechyd a diogelwch."</i>
Safon 128 a 129	Mae'n rhaid mynd ymhellach na'r hyn sydd yma. Er ein bod yn cytuno bod angen darparu cyfleoedd i'r holl gyflogeion ddysgu Cymraeg, mae angen safon hefyd sy'n mynd ymhellach na chynnig 'cyfleoedd', ac yn cynllunio ar gyfer creu gweithlu mwy dwyieithog, drwy roi hyfforddiant dwys i gyfran o staff ar unrhyw adeg. Mae diffyg capasiti'r gweithlu wrth wraidd llawer o fethiannau sylfaenol cyrrff rydyn ni'n ymwneud â nhw. Mae hyfforddiant i'r gweithlu presennol yn rhan bwysig o'r ateb i hynny. Awgrymwn felly safon fel a ganlyn ar gyfer rhai cyrrff: "Rhaid i chi ddarparu hyfforddiant iaith dwys i gyfran o'ch cyflogeion fel eu bod yn dod yn rhugl yn y Gymraeg gyda'r nod o gynyddu cyfran eich cyflogeion sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg".
Safonau ynghylch recriwtio	Mae'n hollbwysig bod y safonau hyn yn cael eu cryfhau. Wrth wraidd nifer fawr o broblemau cyrrff gwelwn wendidau sylfaenol yn eu polisiâu cyflogaeth. Mae'n hanfodol bod y safonau yn mynd i'r afael â'r problemau hyn, ond ar hyn o bryd, maent yn methu gwneud hynny. Rydym yn llawn sylweddoli bod ystyriaethau o dan ddeddfau eraill, ond mae rheoliadau yn <i>Cynlluniau Iaith Gymraeg: eu paratoi a'u cymeradwyo yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993</i> a gyhoeddwyd yn y nawdegau, er enghraifft, yn llawer cryfach ac yn unol â'r gyfraith. Mae'r Comisiynydd hefyd wedi cyhoeddi cyngor ar recriwtio sy'n dangos bod gosod amodau iaith ar swyddi yn gwbl gyson â deddfwriaeth Ewropeaidd. Ymysg yr opsiynau y dylid eu hystyried yw'r canlynol: "Safon [] Rhaid i chi ddynodi pob swydd newydd yn un lle mae'r Gymraeg naill ai: yn hanfodol; gydag amod o ddysgu Cymraeg; neu yn ddymunol;" "Safon [] Wedi i chi gwblhau asesiad sgiliau iaith Gymraeg o'ch cyflogeion a'ch gweithwyr yn unol â safon [134], rhaid i chi ddynodi pob swydd newydd yn unol ag un o'r opsiynau canlynol yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiad: (a) lle mae'r hysbyseb swydd, y disgrifiad swydd a'r cytundeb yn datgan bod

	<i>sgiliau Cymraeg yn hanfodol;</i> <i>(b) lle mae'r hysbyseb swydd, y disgrifiad swydd a'r cytundeb yn cynnwys amod i gyrraedd hyfedredd yn y Gymraeg o fewn amserlen penodol; neu</i> <i>(c) lle mae'r hysbyseb swydd, y disgrifiad swydd a'r cytundeb yn datgan bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol ac yn cynnwys anogaeth a chefnogaeth i gyrraedd hyfedredd yn Gymraeg."</i> "Safon [] Rhaid i chi fabwysiadu polisi i: <i>(a) gweinyddu'n fewnol yn Gymraeg yn unig;</i> <i>(b) gweinyddu'n fewnol yn Gymraeg yn bennaf; neu</i> <i>(c) cynyddu defnydd mewnol o'r Gymraeg"</i> "Safon [] Wedi i chi fabwysiadu polisi i weinyddu'n fewnol yn Gymraeg yn unig, rhaid i chi ddynodi pob swydd fel swydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol sef swydd lle mae'r hysbyseb swydd, y disgrifiad swydd a'r cytundeb yn datgan bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol." "Safon [] Wedi i chi fabwysiadu polisi i weinyddu yn Gymraeg yn bennaf, rhaid i chi ddynodi: <i>(a) y rhan fwyaf o swyddi fel swydd lle mae'r hysbyseb swydd, y disgrifiad swydd a'r cytundeb yn datgan bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol; a</i> <i>(b) gweddill y swyddi lle mae'r hysbyseb swydd, y disgrifiad swydd a'r cytundeb yn cynnwys amod i gyrraedd hyfedredd yn y Gymraeg o fewn amserlen benodol."</i> "Safon [] Os yw swydd yn un mewn derbynfa, yn gweithio ar linell gymorth, mewn canolfan galwadau, neu adran gyfathrebu, wrth i chi benodi a hysbysebu'r swydd o'r newydd rhaid i'r hysbyseb swydd, y disgrifiad swydd a'r cytundeb ddatgan bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol." "Safon [] Os yw cyflogai oedd yn meddu ar sgiliau Cymraeg yn ymddeol, pan fyddwch yn penodi ac yn hysbysebu'r swydd o'r newydd rhaid i chi ddatgan yn yr hysbyseb swydd, y disgrifiad swydd a'r cytundeb bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol."
Safonau 139 - 141	Mae angen safon ychwanegol a fyddai'n sicrhau bod pob arwydd yn y gweithle yn Gymraeg, gan y byddai hynny'n rhoi hyblygrwydd i'r Comisiynydd osod dyddiad targed fel bod pob arwydd yn y gweithle yn Gymraeg.
Safonau Cadw Cofnodion	Dylai fod safon i gadw cofnodion o ganran y cyrsiau a ddarparwyd i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â safonau 82-84.
Safon 164	Dylai fod rhaid i gorff gyhoeddi yr asesiad a wnaed yn unol â'r safonau llunio polisi ar eu gwefan.

Grŵp Hawl i'r Gymraeg

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Rhagfyr 2014